Prifysgolion Cymru
Universities Wales

Arweiniad i addysg uwch yng Nghymru

# Rhyngwladol



# Mae Cymru yn denu oddeutu 22,000 o fyfyrwyr rhyngwladol yn flynyddol ac mae'n gyrchfan o ddewis i ymchwilwyr o bob rhan o'r byd.

Mae myfyrwyr a staff rhyngwladol yn cyfoethogi profiad myfyrwyr, yn gwella dysgu ac addysgu, ac yn helpu i wneud graddedigion o Gymru yn fwy parod ar gyfer gwaith.


Mae myfyrwyr rhyngwladol yn cyfrannu'n sylweddol at ffyniant economaidd yn ogystal â diwylliannol Cymru.

Mae prifysgolion yn cynhyrchu oddeutu £661 miliwn o enillion allforio bob blwyddyn, sy'n cyfateb i 11.8% o holl allforion Cymru, gan greu tua 12,000 o swyddi a chynorthwyo twristiaeth. Mae hyn yn helpu i hybu economïau lleol ledled Cymru, gyda phob rhan o Gymru yn elwa ar wariant myfyrwyr, staff ac ymwelwyr rhyngwladol.

Mae prifysgolion Cymru yn gweithio'n galed i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol trwy gydol eu hastudiaethau. O ganlyniad i'r cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol y maent yn eu gwneud yn y brifysgol, mae myfyrwyr rhyngwladol yn cadw cysylltiadau agos â Chymru ar ôl iddynt raddio gan gryfhau pŵer meddal Cymru ar y llwyfan byd-eang. Mae rhwydweithiau cyn-fyfyrwyr rhyngwladol Cymru yn gweithredu fel llysgenhadon tramor, gan ddatblygu cysylltiadau pwysig rhwng Cymru ac ystod eang o fusnesau a chysylltiadau byd-eang.




Mae prifysgolion yn creu oddeutu £661 miliwn mewn enillion allforio bob blwyddyn




Mae hyn yn gyfystyr â 11.8% o holl allforion y sector gwasanaethau




Yn ei dro, mae hyn yn creu oddeutu 12,000 o swyddi

## Taith

Bydd y rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol uchelgeisiol gwerth £65M hon yn cyllido symudedd myfyrwyr a staff tuag i mewn a thuag allan ar draws prifysgolion ac addysg bellach yn ogystal ag addysg a hyfforddiant galwedigaethol, addysg oedolion, lleoliadau gwaith ieuenctid ac ysgolion. Bydd y cynllun, a fydd yn fyd-eang o ran ei gyrhaeddiad, yn cychwyn yn y flwyddyn academaidd 2022-2023 ac yn cael ei gynnal ym Mhrifysgol Caerdydd

CYMRU FYD-EANG GLOBAL WALES

## Cymru Fyd-eang

Mae Cymru Fyd-eang yn bartneriaeth rhwng Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru, y Cyngor Prydeinig yng Nghymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, sy'n darparu cefnogaeth strategol i sector addysg uwch Cymru fel diwydiant allforio allweddol, yn ogystal ag adeiladu rhwydweithiau ar gyfer Cymru yn rhyngwladol.

Rhwng 2022 a 2026, bydd Cymru Fyd-eang yn ffurfio rhan strategol o'r cynllun cyfnewid dysgu rhyngwladol newydd, Taith, a lansiwyd yn Chwefror 2022

Mynychodd
**134,760**
o fyfyrwyr brifysgolion yng Nghymru yn 2019/20

Daeth **52%** o Gymru

Daeth **32%** o weddill y DU

Daeth **4%** o'r UE

Daeth **12%** o du allan yr UE



## Amcanion Cymru Fyd-eang yw:



Cynyddu recriwtio myfyrwyr



Cynnal a thyfu partneriaethau ymchwil ac addysgol



Creu incwm allforio



Cynyddu ymwybyddiaeth ac enw da sefydliadau Cymru'n rhyngwladol

Mae'r rhaglen wedi sefydlu pedair marchnad i'w blaenoriaethu: UDA, India a Fietnam, ac yn fwyaf diweddar ychwanegwyd yr Undeb Ewropeaidd fel y bedwaredd ardal flaenoriaeth.

Yr hyn sy'n gwneud Cymru Fyd-eang yn unigryw yw'r gallu i gymryd rhan mewn datblygiad 'system i system', gan ysgogi pob elfen o system AU Cymru (llywodraeth, rheoleiddio, sector) i ymateb yn gyflym ac yn arloesol i ofynion gwledydd partner. Yn gefndir i hyn mae gweithgareddau datblygu'r farchnad, yn amrywio o recriwtio a marchnata i brosiectau cynyddu capasiti, dirprwyaethau diplomyddol ac ymweliadau, yn ogystal ag amrywiaeth o ysgoloriaethau o fri, gan gynnwys Ysgoloriaeth flaenllaw Cymru Fyd-eang.